**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Y FANYLEB PERSON**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Adnoddau Dynol (AD) |
| **TÎM** | Uned Iechyd Galwedigaethol (UIG) |
| **TEITL Y SWYDD** | Nyrs Iechyd Galwedigaethol |
| **RHIF Y SWYDD** | 005084 |
| **GRADD** | Band CNB 5 |
| **LLEOLIAD** | Uned Iechyd galwedigaethol, Pont-y-clun |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir** ac a nodir â seren***** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau/ Gofynion** | **Nyrs Gofrestredig Cyffredinol (NGC) Lefel 1*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais a Thystysgrif*** |
| | **Yn Gofrestredig â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB), gyda cherdyn PIN a Rhif dilys*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais* a Thystysgrif** |
| | Tystysgrif, Diploma neu Radd Iechyd Galwedigaethol | Dymunol | Ffurflen Gais a Thystysgrif |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad ymarferol o becynnau Microsoft Office, h.y. Outlook, Word, Excel*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*** |
| | **Profiad nyrsio ar ôl cofrestru** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*** |
| | Profiad nyrsio helaeth, gan gynnwys Iechyd Galwedigaethol (IG) | Dymunol | Ffurflen Gais |
| | Profiad a gwybodaeth o dechnegau gwyliadwraeth IG a dulliau adrodd | Dymunol | Ffurflen Gais |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arddull Bersonol** | **Y gallu i hyrwyddo a rheoli amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa ***<br><br>**Y gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir ***<br><br>Bod yn rhagweithiol mewn hyrwyddo newid i wella effeithlolrwydd sefydliadol | **Hanfodol ***<br><br>**Hanfodol ***<br><br>Dymunol | **Ffurflen Gais * a'r Broses Ddethol**<br><br>**Ffurflen Gais * a'r Broses Ddethol**<br><br>Y Broses Ddethol |
| **Rhyngbersonol** | **Y gallu i weithio'n effeithiol ag eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gymuned ill dau ***<br><br>Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd | **Hanfodol ***<br><br>Hanfodol | **Ffurflen Gais * a'r Broses Ddethol**<br><br>Y Broses Ddethol |
| **Tasg** | **Y gallu i ddeall a gweithredu gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau addas sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a gofynion allweddol ***<br><br>Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo dulliau gwaith diogel ac effeithiol | **Hanfodol ***<br><br>Hanfodol | **Ffurflen Gais * a'r Broses Ddethol**<br><br>Y Broses Ddethol |

**A fyddwch cystal â nodi y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n hyblyg i gwrdd â gofynion swydd. Mae hyn yn cynnwys gweithio nosweithiau. Bydd angen Datgeliad Gwybodaeth estynedig gan y CRB pe bai eich cais yn un llwyddiannus. Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.**

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE